



Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

03.09.20

Croeso cynnes i bawb ar ddechrau Tymor yr Hydref. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y flwyddyn academaidd newydd a gobeithiwn y bydd ein disgyblion yn llawn cyffro am ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod cau gorfodol.

### **Blwyddyn Academaidd 2020/2021**

Eleni, bydd yn ofynnol i ni barhau i addasu bywyd ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r BCBC i sicrhau'r risg lleiaf posibl i bawb yn ystod pandemig Coronafeirws. Ein blaenoriaeth yw diogelwch a lles pawb. Rydym yn aros am ganllawiau pellach mewn ynglyn â digwyddiadau yn y dyfodol ac o ganlyniad bydd ein calendr dyddiadau a gweithgareddau ysgol 2020-2021 yn cael ei gyhoeddi maes o law.

### **Presenoldeb a Threfniadau Gweithredol**

Mae'n ofynnol i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi pan fydd ysgolion yn ailagor ar gyfer disgyblion. Os na all eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol ar gyngor ymarferydd gofal iechyd oherwydd rheswm meddygol sydd wedi'i ddogfennu, cysylltwch â'r ysgol i drafod sut y byddwn yn cefnogi eich plentyn yn ystod y cyfnod hwn. Mae trefniadau a gweithdrefnau gweithredol yn agored i newid wrth i ganllawiau gael eu hadolygu ac mae'r fersiwn ddiweddaraf bob amser ar gael ar wefan ein hysgol, sef, [www.ysgolbroogwr.cymru](http://www.ysgolbroogwr.cymru).

### **Adnoddau Ardal Allanol Newydd**

Disgwylir i'r gwaith o osod ein hoffer chwarae awyr agored newydd, a ohiriwyd cyn cau'r ysgol, gael ei gwblhau y mis hwn. Diolchwn i aelodau'r Cyngor Disgyblion am eu cyfraniad gwerthfawr wrth ddewis y dyluniadau terfynol ar gyfer y prosiect cyffrous hwn.

### **Clwb Brecwast BCBC**

Rydym yn gweithio'n agos gyda BCBC er mwyn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer ailagor a byddwn yn cadarnhau dyddiad ailagor cyn gynted ag y cytunir ar hyn gyda BCBC.

### **Menter Bro Ogwr Clwb Bananas**

Rydym yn gweithio'n agos gyda Menter Bro Ogwr er mwyn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer ailagor eu darpariaeth ar ôl ysgol a darperir rhagor o wybodaeth pan gytunir ar ddyddiad ailagor.

### **Gwisg Ysgol**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn annog pob disgybl i ddychwelyd yn gwisgo gwisg ysgol a chewch restr wisg ar y wefan ysgol neu o swyddfa'r ysgol (mae eitemau â bathodynau yn ddewisol). A wnewch chi ein cefnogi i barhau ag ethos ac undod ein hysgol ar draws yr ysgol drwy anfon eich plentyn mewn gwisg lawn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os yw eich plentyn yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 3 a'i fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar hyn o bryd, efallai y bydd grant wisg ysgol ar gael i chi.

Ar ôl ddychwelyd i'r ysgol, bydd eich plentyn yn cael gwybod pa ddyddiau y bydd yn derbyn gwersi Addysg Gorfforol. Gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol yw esgidiau addas, trowsus tracwisg tywyll a chrys polo gwyn. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u gwisg Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol.

Bydd o leiaf ddwy ffenestr ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd er mwyn caniatáu awyru naturiol cyson. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â siwmpwr a/neu gôt i'r ysgol, gan fod posibilrwydd bydd yr ystafelloedd dosbarth fod yn oerach nag arfer.

## **Eiddo Personol**

Ar wahân i'r eitemau gofynnol sydd eu hangen ar gyfer diwrnod ysgol (h.y. potel ddŵr a byrbryd, bocs cinio os nad cinio ysgol, cot, het ac ati), gofynnwn yn garedig i ddisgyblion beidio â dod ag unrhyw eitemau personol o'u cartref i'r ysgol. Caniateir i ddisgyblion ym Mlynedd 5 a 6 ddod â'u câs pensil eu hunain i mewn, os dymunant. Gwnewch yn siŵr bod pob eitem o ddillad ac unrhyw eiddo personol wedi'u labelu'n glir, gan fod modd dychwelyd eitemau wedi'u labelu'n hawdd i ddisgyblion.

## **Trefniadau Cinio a Byrbwyd**

Ni fydd y troli byrbrydau ffrwythau ar gael hyd nes y rhoddir rhybudd pellach. Gall disgyblion ddod â byrbryd iach/ffrwythau i'r ysgol, os ydynt yn dymuno bwyta hyn yn ystod amser egwyl y bore.

Bydd cinio ysgol ar gael ar unwaith a dylai rhieni/gofalwyr sicrhau bod digon o gredyd ar gyfrifon cinio, gan nad ydym yn caniatáu balansau debyd ar gyfrifon cinio. Os yw eich plentyn yn dymuno dod â phegyn cinio i'r ysgol, rhowch ddewisiadau cinio hawdd eu hagog iddo, er mwyn lleihau cyswllt agos â staff sy'n goruchwylio trefniadau cinio. Gofynnir i ddisgyblion gadw a mynd ag unrhyw wastraff cinio llawn adref.

Cyn belled â bod rhiant yn derbyn budd cymwys, yna mae'r plentyn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol os teimlwch y byddai eich plentyn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gallwn roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn yn gyfrinachol.

## **Darllen/Gwaith Cartref**

Bydd y disgyblion yn dod â llyfr darllen adref bob wythnos. Ar ôl iddynt ddychwelyd, bydd llyfrau'n cael eu rhoi mewn cwarantyn am 72 awr cyn cael eu hail-ddefnyddio. Bydd y rhieni'n cael Slip Darllen bob tro yr anfonir llyfr adref; mae hyn er gwybodaeth i chi yn unig a gofynnwn i chi beidio â dychwelyd Slipiau Darllen i'r ysgol.

Bydd tasgau cartref yn cael eu gosod ar-lein drwy Hwb. Bydd disgyblion yn gallu cwblhau'r gwaith ar-lein neu ddarparu lluniau / tystiolaeth o waith / prosiectau a wneir gartref. Bydd y disgyblion yn cael eu hatgoffa o'u manylion mewngofnodi Hwb wrth ddychwelyd i'r ysgol.

## **Gorchuddion Wyneb**

Nid yw'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion oedran cynradd wisgo gorchuddion wyneb naill ai yn yr ysgol neu ar gludiant i'r ysgol. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ddisgybl yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, rhaid iddo allu ei wisgo a'i dynnu yn annibynnol. Mae BCBC yn argymhell bod y staff yn gwisgo gorchudd wyneb mewn coridorau a manau cymunedol a fe fydd hyn yn ddewis unigol i'r staff.

Gobeithiwn fod y wybodaeth hon wedi bod o gymorth i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ddychwelyd eich plentyn i'r ysgol, cysylltwch â swyddfa'r ysgol ar 01656 815580 neu anfonwch e-bost at [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk)

Diolch eto am eich amynedd a'ch cydweithrediad wrth i ni barhau i gydweithio eleni.

Cofion Cynnes

Sharon Jayne

Headteacher

Nik Dart

Chair of Governors